

Cysylltu â'r rhwydwaith trydan

Hyd at bedwar cyflenwad
domestig Un busnes bach



**SP ENERGY
NETWORKS**


Pwt amdanom ni

Ein gwaith ni yn SP Energy Networks yw cadw'r trydan yn llifo yng nghanolbarth a de'r Alban, Swydd Gaer, Glannau Mersi, gogledd Cymru a gogledd Swydd Amwythig. Rydyn ni hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eiddo wedi cysylltu â'r rhwydwaith trydan yn ddiogel a chyn gynted ag y bo modd.

Os oes angen cysylltiad trydan newydd â'n rhwydwaith arnoch, rydyn ni yma i helpu. Bydd ein timau dylunio yn gweithio gyda chi i lunio'r dyluniad mwyaf cost-effeithiol ar gyfer eich prosiect, a fydd wedi'i deilwra i'ch anghenion penodol chi.

Ein nod yw gwneud y broses cysylltu mor syml â phosib. Fe welwch isod ein bod wedi amlinellu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol a fydd yn helpu i wneud yn siŵr bod eich prosiect ar y trywydd iawn.

Y broses cysylltu



Pethau i'w hystyried cyn gwneud cais:

Pa fath o gysylltiad yw e? A yw'n gysylltiad domestig neu fasnachol, yn gyflenwad newydd neu'n uwchraddiad? Ble fydd eich mesurydd yn cael ei osod? Y tu mewn neu'r tu allan? Allwch chi gael ato yn rhwydd er mwyn ei ddarllen? Pwy fydd yn cyflenwi eich pŵer? Er mai ni sy'n rhoi'r ceblau yn eu lle, bydd angen i chi drefnu darparwr trydan - y cwmni hwnnw fydd yn anfon eich bil trydan rheolaidd atoch chi. Pryd hoffech chi gysylltu? Oes angen i chi gytuno ar y gwaith â rhywun arall cyn iddo ddechrau? Beth fydd y gost?

Mathau o Ddyfynbris ar gael

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o fathau o ddyfynbris, yn dibynnu ar ba gam mae eich prosiect ynddo. Bydd ein dylunwyr yn cysylltu â chi i drafod y math o ddyfynbris sydd ei angen arnoch. Er enghraifft:

Amcangyfrif o'r Gyllideb - i roi syniad cynnar o faint gallai eich prosiect gostio. Amcangyfrif o'r gost yw hyn, ac os ydych chi am fwrw ymlaen bydd angen i chi gysylltu â ni am ddyfynbris ffurfiol.

Dyfynbris Ffurfiol - sy'n cynnwys yr holl waith a fydd ei angen, ac mae'n ddilys am 3 mis calendr. Mae gennym ni hefyd gyfrifiannell cost ar-lein a fydd yn rhoi amcangyfrif mwy cywir o gost bosib eich cysylltiad.

Costau eraill y gallech orfod eu hystyried

Ffos ceblau - Bydd angen i chi gloddio ffos o ffin eich eiddo i safle newydd y mesurydd. Gallwn ni ddarparu dyfynbris ar gyfer y gwaith hwn os bydd angen.

Blwch mesurydd - Bydd angen i chi ddarparu blwch mesurydd trydan a deunydd arall i warchod ein cebl.

Mesurydd - Dydyn ni ddim yn darparu mesuryddion trydan. I drefnu i gael mesurydd wedi'i osod er mwyn i chi allu defnyddio eich cyflenwad trydan, bydd angen i chi gysylltu â'r cyflenwr trydan rydych chi wedi'i ddewis.

Cloddio'r briffordd - Bydd angen i ni gloddio'r llwybr troed i gysylltu cyflenwad dan ddaear newydd. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn codi tâl arnom ar gyfer cau'r llwybr troed neu'r ffordd, a bydd y gost hon wedi'i chynnwys yn eich dyfynbris.

Ble mae cael Ffurflen Gais

Mae ein ffurflenni cais ar-lein y gellir eu llwytho i lawr ar gael ar ein gwefan:

www.spenergynetworks.co.uk/gettingconnected

Mae'r manylion o ran i le y dylech anfon eich ffurflen gais gyflawn i'w gweld ar y ffurflen berthnasol.

Amserlenni a chostau cyffredin

Bydd yr amser a gymerir i roi dyfynbris i chi yn dibynnu ar eich prosiect. Serch hynny byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr amserlenni o'r cychwyn cyntaf. Os ydych chi am symud cyflenwad domestig, mae'n cymryd hyd at 5 diwrnod fel arfer. Gall prosiect cynhyrchu gymryd hyd at 65 diwrnod.

Bydd eich Rheolwr Prosiect yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi bob cam o'r ffordd.

	Safon wedi'i Sicrhau	Amser cyfartalog i gael dyfynbris	Prisiau o (ac eithrio TAW)	Pris Cyfartalog o (ac eithrio TAW) o fis Hydref tan nawr	Amser Cyfartalog i gael cysylltiad ar ôl talu
Cyflenwad Newydd: Un Plot	5 diwrnod*	5 diwrnod*	£266	£1657	42 diwrnod*
Cyflenwad Newydd: 2-4 Plot	15 diwrnod*	9 diwrnod*	£373	£4121	42 diwrnod*
Cyflenwad dros dro	5 diwrnod*	4 diwrnod*	£417	£1436	45 diwrnod*

Mae gennych chi ddewis...

Mae SP Energy Networks yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr a phwrpasol. Serch hynny, mae darparwyr cysylltiadau amgen yn gweithredu yn ein hardal, ac efallai y bydd modd iddyn nhw gyflawni sawl agwedd ar y gwaith cysylltu.

Gelwir y cwmnïau eraill sy'n darparu gwasanaethau cysylltu rhwydwaith yn Ddarparwyr Cysylltiadau Annibynnol neu

Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan - www.spenergynetworks.co.uk/gettingconnected. Mae'r wefan isod yn cynnwys rhestr o ddarparwyr achrededig hefyd.

www.lloydsregister.co.uk/schemes/NERS

Mwy o wybodaeth

I gael amrywiaeth helaeth o wybodaeth, gan gynnwys DVDs a thafenni y gallwch eu llwytho i lawr, a fydd yn hwyluso'r broses o gael eich cysylltiad;

Ewch i:

www.spenergynetworks.co.uk/gettingconnected

Well gennych sgwrsio?

Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, cofiwch fod croeso i chi ein ffonio ac fe wnawn eich helpu chi i lenwi eich ffurflen gais dros y ffôn. Dyma ein rhifau cyswllt:

Canolbarth a De'r Alban
0800 389 1785

Swydd Gaer, Glannau
Mersi, Gogledd Cymru a
Gogledd Swydd Amwythig
0800 389 1783

Gallwch gysylltu â ni rhwng 8.30 a 4.45 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gallwch gysylltu â ni dros e-bost hefyd: gettingconnected@scottishpower.com